**Rheilffyrdd Ffestiniog ac Eryri**
**Ffestiniog & Welsh Highland Railways**

Gorsaf yr Harbwr / Harbour Station, Porthmadog, Gwynedd, LL49 9NF
☎ 01766 516000 🖷 01766 516006
enquiries@ffwhr.com


**ARWEINYDD MARCHNATA:**

## Mae Rheilffyrdd Ffestiniog ac Eryri'n recriwtio…

**Amdanom Ni**

Mae Rheilffyrdd Ffestiniog ac Eryri, y cwmni rheilffordd hynaf yn y byd sy'n parhau i redeg trenau, yn ymestyn am 40 milltir drwy harddwch Parc Cenedlaethol Eryri. Rydym wedi bod yn edrych ar ôl ein teithwyr am fwy na 150 o flynyddoedd, gan gynnig iddynt y profiad gorau posibl. Rydym yn un o'r atyniadau ymwelwyr blaenaf yng Ngogledd Cymru ac rydym hefyd yn falch o'n statws fel gweithdy "Treftadaeth" arloesol o safon uchel. Gyda chyfnod cyffrous o'n blaenau wrth i'n poblogrwydd
barhau i dyfu, rydym yn eich gwahodd chi i ddod yn rhan o'r profiad hwn ac i ymuno â'n tîm…

**Y Swydd**

Rydym yn chwilio am weithiwr proffesiynol marchnata sy'n uchelgeisiol, yn greadigol ac yn ddynamig i ymuno â'n tîm presennol i ddatblygu, sefydlu a chynnal strategaethau marchnata i gyflawni ein hamcanion sefydliadol.

Fel yr Arweinydd Marchnata, byddwch yn adrodd wrth y Rheolwr Masnachol ac yn cydweithio'n agos â'r Tîm Gwerthiant a Marchnata i hyrwyddo busnes craidd a gwasanaethau ein rheilffyrdd treftadaeth aml-safle.

Byddwch yn gweithio o'n swyddfeydd ym Mhorthmadog lle gallwch rannu syniadau a datblygu eich gwybodaeth gyda gweithwyr marchnata proffesiynol hyderus o'r un anian mewn amgylchedd bywiog a llawn hwyl.

Byddwch yn cynorthwyo'r Tîm Masnachol i roi'r Cynllun Marchnata ar waith, gan ddatblygu "Ymgyrchoedd Cenedlaethol", a rheoli'r prosiectau hynny, i gyrraedd ein grwpiau targed presennol a rhai newydd, cynllunio digwyddiadau a chydweithio gyda phenaethiaid adrannau i ddatblygu a chydlynu eu holl ofynion marchnata ar-lein ac all-lein.


The Festiniog Railway Company
Corfforwyd gan Ddeddf Seneddol, 23 Mai 1832 / Incorporated by Act of Parliament, 23 May 1832
Rhif Cwmni: ZC000203/Company Number: ZC000203
Prif swyddfa/Principal office: Gorsaf yr Harbwr / Harbour Station, Porthmadog, Gwynedd, LL49 9NF
www.festrail.co.uk

Mae gennym fel cwmni dargedau gwerthiant a refeniw uchelgeisiol ac yn y swydd hon byddwch yn cynorthwyo i sicrhau gwerthiant ychwanegol yn y “Prif Dymor” a hefyd yn y misoedd cyn ac ar ôl hwnnw er mwyn cyrraedd y targedau hynny.

**Prif Ddyletswyddau a Chyfrifoldebau’r Swydd**

- Arwain a chydlynu’r holl agweddau ar farchnata, hysbysebu, cynigion arbennig a gweithgareddau
- Datblygu a hyrwyddo brand Rheilffyrdd Ffestiniog ac Eryri ledled pob sianel marchnata
- Cydweithio â thîm rheoli’r wefan a’u cynorthwyo
- Cydlynu’r holl weithgareddau ar gyfryngau cymdeithasol
- Datblygu a rhoi ar waith pob agwedd ar Gynlluniau Marchnata Rheilffyrdd Ffestiniog ac Eryri ar y cyd â’r meysydd busnes perthnasol
- Dadansoddi pob ymgyrch, gan wneud argymhellion ynghylch gweithgareddau yn y dyfodol, gan gynnwys ynghylch sut i ennill mwy o deithwyr a chynyddu effeithiolrwydd ymgyrchoedd
- Monitro rhagolygon teithwyr a refeniw yn barhaus, gan wneud argymhellion ynghylch unrhyw gamau mae angen eu cymryd i sicrhau gwireddu’r rhagolygon
- Datblygu cynlluniau a phrosiectau marchnata ar gyfer cynhyrchion a gwasanaethau cyfredol a rhai newydd, a’u rhoi ar waith
- Rheoli cynhyrchiant y cynlluniau marchnata a’r prosiectau
- Monitro ac adolygu’r holl weithgareddau marchnata a’u canlyniadau ac adrodd amdanynt
- Llunio a rheoli’r gyllideb farchnata ac adrodd ynghylch yr adenillion o’r buddsoddi ac ar fesuriadau perfformiad allweddol
- Datblygu cysylltiadau adrannol, busnes cyfan ac allanol er hwyluso cyfathrebu a thrafodion busnes
- Datblygu “Rhaglen Digwyddiadau” gyda’r Tîm Masnachol gan sicrhau bod ei chynnwys yn gywir, yn amserol ac o fewn y gyllideb
- Cydlynu’r holl ddigwyddiadau mewnol
- Cydweithio â’r Tîm Marchnata a’u cynorthwyo wrth gynllunio digwyddiadau allanol
- Cydweithio â’r Arweinydd Cysylltiadau Cyhoeddus a Chyfathrebu i sicrhau’r defnydd gorau o’r holl gynnwys ar y cyfryngau’n gyffredinol ac ar y cyfryngau cymdeithasol

**Addysg a Phrofiad**

- O leiaf dwy flynedd o brofiad o waith marchnata

- Gradd mewn maes cysylltiedig â busnes neu farchnata neu gymhwyster proffesiynol cyfatebol
- Profiad mewn pob agwedd ar ddatblygu a rheoli prosiectau strategaethau marchnata
- Prawf o weithredu llwyddiannus mewn marchnata'n defnyddio pob cyfrwng yn ofynnol
- Profiad o ddefnyddio technolegau marchnata digidol, megis Google AdWords, Google Analytics, ac o farchnata cynnwys ac egwyddorion sylfaenol optimeiddio peiriannau chwilio
- Sgiliau cyfathrebu rhagorol ar lafar ac mewn ysgrifen, gyda'r gallu i ysgrifennu testun atyniadol ar gyfer ein gwefan, ein taflenni a'n cylchlythyrau e-bost

**Galluoedd Allweddol**

- Y gallu i drefnu a chynllunio
- Sgiliau meddwl strategol a beirniadol
- Y gallu i reoli a dadansoddi data
- Y gallu i reoli prosiectau a chydlynu pob gweithgaredd marchnata
- Y gallu i siarad ac ysgrifennu Cymraeg yn ddymunol

**"Dyma fyddwn ni'n ei gynnig i chi…"**

- Cyflog - £24,000 - £26,000 y flwyddyn yn dibynnu ar brofiad
- Cynllun pensiwn atyniadol
- Cyfleoedd hyfforddi a datblygu gyrfa
- Lwfans teithio a threuliau
- Teithio am ddim i chi a'ch teulu ar Reilffyrdd Ffestiniog ac Eryri, a theithio rhatach ar ôl chwe mis ar wasanaethau Rheilffyrdd Cenedlaethol y Deyrnas Unedig

- **Dyddiad cau ar gyfer ceisiadau: Dydd Gwener 15 Tachwedd 2019**
- **Os ydych yn credu eich bod yn bodloni pob un o'r uchod, byddem ninnau'n fodlon iawn eich cyfarfod chi! Ond yn gyntaf, rhaid i ni weld eich gallu chi ar waith.**
- **Ynghyd â'ch llythyr cais a'ch CV, cyflwynwch, os gwelwch yn dda, gynlluniau ymgyrch neu gystadleuaeth ar y cyfryngau cymdeithasol y byddech yn ei chynnal i ddenu cwsmeriaid ar ddechrau'r tymor ym mis Mawrth 2020.**

**Anfonwch yr uchod at ein Rheolwr Masnachol – Clare Britton yn applications@ffwhr.com**

*Mae Rheilffyrdd Ffestiniog ac Eryri yn ymrwymedig i gynyddu amrywiaeth ymhlith ein gweithlu ac i ddarparu amgylchedd gwaith cynhwysol ar gyfer pawb.*